



**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 10 IONAWR 2023**

**PENDERFYNWYD**, ar yr amod bod gwall teipio yn eitem 1, paragraff 1, yn cael ei gywiro, lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 2023 yn gywir.

**5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

**6. MR DYLAN CROMPTON DAVIES CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

[Sylwer: Roedd y Cynghorydd J.K. Howell wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac ailadroddodd ei ddatganiad ynghylch yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr adroddiad yn cael ei drafod a phleidlais yn cael ei chynnal yn ei gylch].

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Dylan Crompton Davies, o Glyncoed, Heol Saron, Pentre-cwrt, Llandysul am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Arweinydd Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch y materion a godwyd gan yr Arweinydd Trwyddedu.

Argymhellodd yr Arweinydd Trwyddedu fod cais Mr Davies yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNODD** yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ganiatáu cais Mr Dylan Crompton Davies am adnewyddu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

## Rheswm

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

### **7. MR DAMIAN MARTYN MUNRO CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr Damian Martyn Munro, o 61 Heol Penygarn, Tŷ-croes, Rhydaman am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Arweinydd Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Yna bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Munro ynghylch y cais a'r materion a godwyd gan yr Arweinydd Trwyddedu.

Argymhellodd yr Arweinydd Trwyddedu fod cais Mr Munro yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Damian Martyn Munro am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## Rheswm

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

### **8. MR WAYNE SCOTT DICKSON CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Wayne Scott Dickson, o Falcon House, Heol Cwm-mawr, Dre-fach, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Arweinydd Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Yna bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Dickson ynghylch y cais a'r materion a godwyd gan yr Arweinydd Trwyddedu.

Argymhellodd yr Arweinydd Trwyddedu fod cais Mr Dickson yn cael ei wrthod.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Wayne Scott Dickson am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**9. MR JEFFREY THOMAS CHANDLER TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Jeffrey Thomas Chandler, o Fflat 3, 4 Stryd y Farchnad, Llandeilo yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod. Rhoddodd yr Arweinydd Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Chandler.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Chandler ynghylch y materion a godwyd gan yr Arweinydd Trwyddedu.

Argymhellodd yr Arweinydd Trwyddedu fod cais Mr Chandler yn cael ei atal nes ei fod yn cwblhau Cwrs Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd priodol â'r Adran Drwyddedu.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD diddymu Trwydded Yrru Ddeuol Mr Jeffrey Thomas Chandler ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

Rheswm

Ar sail y ffeithiau a gyflwynwyd, ni allai'r Pwyllgor fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded. Yn unol â hynny, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod achos rhesymol dros ddiddymu'r drwydded.

---

**CHAIR**

---

**DATE**